

## Cofnodion cyfarfod 2/7/2020 (trwy gyfrwng Zoom)

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Sue Davies, Dilys Evans, Alun Price, Cyngorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

- 1. Croesawyd** pawb gan y Maer. Derbyniwyd ymddiheuriadau Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sharon Evans, Ivora Jones, Eluned Jones, Carol Rowlands a John Caradog Williams. Dywedodd y Maer ei fod wedi cadw cysylltiad gyda Ysgol Godre'r Berwyn yn ystod y cyfnod Covid 19 ac roedd yn falch o ddweud y bydd hyd at 9 pwnc Lefel A ychwanegol yn cael eu cynnig yn y 6ed Dosbarth, y rhan fwyaf yn bynciau dysgu-o-bell. Bydd hyn yn ehangu'r arlwy sydd ar gael. Dywedodd ei fod wedi cyfrannu tuag at ymdrech trigolion Awel y Coleg i greu tybiau o flodau.
- 2. Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
- 3. Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 4ydd 2020.
- 4. Materion y Clerc:** Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad y mis hwn ar osod llinellau melyn dwbl ar hyd dwy ochr y ffordd yn Heol Aran. Derbyniwyd gohebiaeth am y sefyllfa a chyfarwyddwyd y Clerc i ymateb. Dywedodd Cyngorydd Dilwyn Morgan ei fod mewn trafodaethau gyda'r cwmni trê'n bach am ganiatáu parcio i drigolion. Awgrymwyd bod angen rhoi blaenoriaeth i'r sawl sy'n troi mewn i heol Aran o'r Stryd fawr. Addawodd Dilwyn Morgan i fynd â'r awgrym ymlaen.
- 5. Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cyngorydd Gwynedd. Dywedodd y sicrhawyd grant i greu llwybr diogel i'r ysgol ar gyfer disgyblion o gyfeiriad Bro Eryl a Chae Gadlas; bydd y llwybr hefyd yn addas i feicio i'r ysgol. Mae Cyngor Gwynedd yn trafod gyda busnesau i'w galluogi i ddefnyddio'r llecynnau parcio o flaen eu busnes i osod byrddau a nwyddau oherwydd pryder Covid 19. Mae'r Cyngorydd wedi trefnu i grŵp o wirfoddolwyr ei helpu gyda chwynnu yn y Stryd Fawr. Bydd yn trafod gyda'r Grŵp Busnesau fod busnesau unigol yn cymryd cyfrifoldeb dros y llecyn palmant o flaen eu busnes. Er mwyn gwella delwedd y dref cytunodd y Cyngor i ariannu hyd at £1000 i brynu blodau a baneri. Mynegwyd y farn y byddai planhigion parhaol yn brynant mwy darbodus na rhai blynyddol.
- 6. Cyfoeth Naturiol Cymru:** Nid oedd dim i'w adrodd heblaw y derbyniwyd gwybodaeth y bydd goleuadau traffig yn ardal Llanycil tan ddiwedd y flwyddyn.
- 7. Is-bwyllgorau:** Nid oedd adroddiadau.
- 8. Materion Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau i'w trafod.
- 9. Materion Cyllid:**
  - i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

- ii. Cytunwyd i dalu HMRC, cyflog ac i dalu am waith cynnal a chadw (£1,080).
- iii. Derbyniwyd gyda diolch Adroddiad yr Archwilydd Mewnol; nid oedd materion yn codi.
- iv. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2019-20 gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Tref Y Bala a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/20.

**10. Gohebiaeth:**

- i. **Toiledau:** Ymatebwyd i gais Cyngor Gwynedd am sylwadau ar agor toiledau'r Plase.
- ii. **Llythyr prif Weithredwr Cyngor Gwynedd** yn holi am yr ymdeimlad lleol am agor yr economi ar ôl cau lawr oherwydd Covid 9. Darllenwyd hefyd am y gyfundrefn leol o brofi ac olrhain. Cytunwyd i fynegi bod ymdeimlad o gonsyrn cyffredinol am don o ymwelwyr na fydd yn parchu'r rheolau Cytunwyd y byddai'n fuddiol i Gyngor Gwynedd ddarparu posteri ac arwyddion yn annog cadw pellter ac yn annog gwisgo mygydau tu fewn i adeiladau. Cytunwyd y byddai'n dda cyhoeddi lefel yr haint yn lleol yn wythnosol er mwyn lleddfu ofnau – neu er mwyn codi ymwybyddiaeth o berygl. Nodwyd, oherwydd y tebygolrwydd o ail don o Covid 19, mae Gwynedd yn gwneud paratodau i gau lawr yn sydyn pe bydd angen unwaith eto.
- iii. **Cais Llywodraeth Cymru** trwy law Lindsey Ellis-Edwards yn cynnig rhoi arwyddion ar hyd y stryd. Cytunwyd fod hyn yn rhy ychydig ac yn rhy hwyr.
- iv. **Pwyntiau gwefru ceir trydan:** Cafwyd trafodaeth ar y lleoliad a nodwyd yn y llythyr oddi wrth Trafnidiaeth Cymru, sef yn y ddau fae parcio yn ymyl garej Heron. Cytunwyd y byddai maes parcio'r Grin yn well leoliad o lawer, neu hyd yn oed maes parcio'r Plase. Cytunodd y Clerc i ymateb gan rhoi'r rhesymau a wyntyllwyd.

**11. Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad Alun Price a soniodd fod y gwaith yn yr Henblas bron wedi ei orffen a bod 7 gofod newydd ar gael ar y trydydd llawr. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod prydles y Ganolfan Deulu a rhedeg yr adeilad. Y gobaith yw agor ym mis Medi.

**12. Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd neges Carol Rowlands fod eu cyflwr yn dda ond bod angen gwagio biniau ar y ffordd at y llyn; addawodd Dilwyn Morgan y byddai hyn yn digwydd drannoeth.

**13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref – dim.**

Diolchodd y Maer i'r Clerc am ei gwaith, ac i Dilwyn Morgan am yr holl y mae'n ei wneud dros y dref.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 3/9/2020

*Amser gorffen: 8.00pm*